**CYNLLUN DATBLYGU LLEOL AR Y CYD**

**Panel Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd**

**27 Ionawr 2017 (yb)**

**Siambr Hywel Dda**

**Presennol:**

**Cyngor Sir Ynys Môn**
Cyng. Richard Dew
Cyng. Victor Hughes
Cyng. John Griffith
Cyng. Lewis Davies

**Cyngor Gwynedd**
Cyng. Dafydd Meurig
Cyng. Gwen Griffith
Cyng. John Wyn Williams
Cyng. Owain Williams
Cyng. John Pughe Roberts
Cyng. John Brynmor Jones

**Swyddogion:**

| | |
|---|---|
| Gareth Jones | Uwch Reolwr Gwasanaeth Cynllunio, Amgylchedd a Gwarchod y Cyhoedd (CG) |
| Dylan Williams | Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd (CSYM) |
| Nia Haf Davies | Rheolwr - UPCC |
| Christian Branch | Rheolwr Gwasanaeth Busnes, Rheoleiddio a Datblygu Economaidd (CSYM) |
| Eirian Harris | Cynorthwy-ydd Cynllunio Cefnogol - UPCC |

DRAFT

## 1. YMDDIHEURIADAU

Ni dderbyniwyd ymddiheuriadau.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni chafwyd datganiadau personol.

## 3. MATERION BRYS

Ni chafodd materion brys eu cyflwyno.

## 4. COFNODION

Cadarnhawyd bod cofnodion cyfarfod y Panel a gynhaliwyd ar 18 Tachwedd 2016 yn rhai cywir.

5. **CYNLLUN DATBLYGU LLEOL AR Y CYD – DIWEDDARIAD**

**Y Sefyllfa Ddiweddaraf**

Cafwyd cadarnhad fod pob 'Pwynt Gweithredu' wedi cael eu cyfarch, a bod y manylion i'w gweld ar wefan y Cynghorau.

Mae cyfres o newidiadau arfaethedig wedi cael eu hadnabod fel canlyniad i'r Gwrandawiadau Cyhoeddus. Mae Cofrestr o'r newidiadau sy'n cael eu hadnabod fel Newidiadau Materion sy'n Codi yn destun ymgynghoriad cyhoeddus o 26 Ionawr 2017 i 9 Mawrth 2017. Gofynnwyd am yr ymgynghoriad yma gan yr Arolygydd er mwyn sicrhau fod pawb sydd gan ddiddordeb yn y Cynllun yn ymwybodol o newidiadau posib ac i roi cyfleon iddynt wneud sylwadau. Mae copïau o'r dogfennau i'w gweld ar wefan y ddau Gyngor, llyfrgelloedd yn ardal y Cynllun a swyddfeydd y Cynghorau.

Camau Nesaf:

- Gyrru sylwadau am y Newidiadau Materion sy'n Codi i'r Arolygydd
- UPCC yn darparu adroddiad a fydd yn nodi barn am y sylwadau o fewn pythefnos i ddiwedd y cyfnod ymgynghoriad.
- Esboniwyd bod posibilrwydd bydd angen cynnal gwrandawiadau ychwanegol os ydi'r Arolygydd yn credu fod angen nhw.
- Yr Arolygydd yn cyflwyno adroddiad rhwymol ar gyfer 'gwirio ffeithiau'.
- Ar sail yr uchod, disgwylir derbyn adroddiad terfynol a fydd yn cynnwys yr argymhellion rhwymol erbyn diwedd Mehefin 2017 i'w gyflwyno i'r ddau Awdurdod.

6. **ADOLYGIAD O'R GWASANAETH POLISI CYNLLUNIO AR Y CYD**

Cyflwynodd Christian Branch yr adroddiad am yr adolygiad. 'Roedd yr adroddiad yn cyfeirio at bwrpas yr adolygiad, yn rhoi gwybodaeth cefndir am waith yr UPCC a'r trefniadau llywodraethol, ac yn gwneud cyfres o argymhellion.

Dyma'r argymhellion:

- Ail-ddiffinio pwrpas a rôl yr UPCC yn dilyn mabwysiadu'r CDLl ar y Cyd i adlewyrchu anghenion a disgwyliadau CSYM a CG.
- Sefydlu rhaglen waith clir, penodol sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau ar gyfer yr UPCC ar ôl mabwysiadu'r CDLl ar y Cyd a sicrhau adnoddau digonol ar ei chyfer (mewn cyfnod o arbedion / effeithlonrwydd).
- Cryfhau llywodraethant a rhannu perchnogaeth gyffredinol o'r UPCC yn y ddau Gyngor – gan gynnwys mireinio rôl y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd a'r Panel Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd.
- Adolygu a sefydlu beth yw'r lleoliad mwyaf effeithiol ar gyfer swyddfa'r UPCC er mwyn integreiddio'r Uned a'i swyddogion yn well â gwasanaethau cynllunio'r ddau Gyngor (a'u systemau busnes a'u harferion gwaith) ac o bosibl lleihau gorbenion a chostau.

DRAFT

- Gwella'r trefniadau rheoli a'r dylanwad mewn perthynas â chynllunio ac adroddiadau ariannol, materion adnoddau dynol, monitro perfformiad a blaenoriaethu gwaith / gweithgareddau.
- Annog cyfathrebu ac ymgysylltu mwy effeithiol â rhan ddeiliaid mewnol ac allanol i wella proffil ac amlygrwydd yr UPCC a sicrhau cydnabyddiaeth o ddyletswyddau, cyflawniadau a gwerth ychwanegol yr Uned.
- Gwella proffil ac ymwybyddiaeth o'r UPCC, galluoedd, gwybodaeth ac arbenigedd gyda'r ddau Gyngor.
- Diffinio rôl yr UPCC wrth fynd i'r afael â gofynion penodol y Ddeddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol.

Sylwadau a dderbyniwyd:

- Cafwyd cefnogaeth i'r argymhellion, sy'n sicrhau parhad yr UPCC.
- O gofio'r sgiliau sydd wedi cael eu datblygu o fewn yr UPCC credir bod angen rhoi ystyriaeth ofalus ynglŷn â sut / lle i wireddu arbedion effeithlonrwydd yn y dyfodol.
- Awgrymwyd y gallir edrych i mewn i'r posibilrwydd o greu incwm er mwyn cymryd mantais o'r sgiliau arbenigol o fewn yr UPCC ac efallai bod yna bosibilrwydd o ddatblygu'r sgiliau arbenigol, er enghraifft, yn gysylltiedig ag asesu effaith datblygiad ar yr iaith Gymraeg, er mwyn sicrhau bod y Cynghorau'n cynnig y gwasanaeth gorau i gymunedau.

DRAFFT